# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH AM

# Y PARCH. THOMAS WILLIAMS,

## O GWMFFORCH,

## YM MHLWYF MERTHYR-CYNOG,

YR HWN

A ymadawodd â'r byd Ionawr 16, ac a gladdwyd wrth Addoldy Merthyr-Cynog, Ionawr 19, 1833,

**YN 63 MLWYDD OED.**

*Pregethodd ar yr achlysur y Parch. Watkin Edward, oddiwrth Philippiaid 1. 23.*

## GAN THOMAS ELIAS.

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw; ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt."—Heb. 13. 7.

LLANYMDDYFRI:
ARGRAFFWYD GAN D. R. a W. REES.

1833.

# MARWNAD.

1 NEWYDDION 'nol newyddion,
Rai trymion, yma a thraw,
Sydd yn olynol ganlyn
Am angeu, brenin braw,
Yn torri 'lawr yr ie'ngaf,
A'r gwych, cadarnaf wedd,
Yr henaint, doeth heb arbed,
O'r byd i byrth y bedd.

2 Pa fodd mae'r doeth yn marw?
'R un fath a'r annoeth rai,
Malurir ac fe chwelir
I lawr y tŷ o glai;
Y pridd i'r pridd gaiff fyned,
Yn fwyd i bryfaid mân,
Yr enaid byw a'i babell
Ddidolir ar wahan.

3 Prif dadau a phrophwydi,
A ydynt fyth yn fyw?
Gwir happus apostolion,
A blaenion deulu Duw;
Diwygwyr enwog anwyl,
Da weis Tywysog hedd,
Fe'u torrwyd 'lawr i'r beddrod
Gan angeu glas a'i gledd.

4 Mae brodyr wedi blaenu
Yn lluoedd maith ym mla'n,
Fu yma yn y rhyfel,
Yng nghanol mwg a thân;
Maent heddyw wedi gorphen,
Heb arnynt glais na chlwy',
A'n hanwyl Thomas Williams
Ddiangodd attynt hwy.

5 Mae cwyno ym mhlwyf Cynog,
A Sir Frycheiniog oll,
Oes yma, am ei symmud,
Mae gwall yn wir a choll;
Gwas ffyddlon, union, anwyl,
I'r perwyl, gwelwyd p'un,
Am undeb y frawdoliaeth,
Mewn cariad yn gyttun.

6 Diduedd oedd a diwyd
Mewn bywyd yn ddiball,
Rhag cynnen fai'n ymgynnyg
Fe fyddai'n gwilio'n gall;
Ni chodai'r cryf rhyfygus
I fynu yn ei fai,
Na sathru'r gwan ei feddwl,
Fel y mae arfer rhai.

7 Gwr cynnes, hawdd ei gynnnwys
Ym mynwes eglwys Dduw,
Oedd Tomas dros ei dymmor,
Tra mwynaidd, gweddaidd, gwiw;
Nid magu hen genfigen,
A phen y gynnen gas,
Ond maethu ffrwythau heddwch,
Gwir degwch dwyfol ras.

8 Mae wylo, oes, am Williams,
Yn deilwng, deulu Crist,

Oedd was a a fu mor weithgar,
  Mae yma drydar trist;
Hoff oedd yn wir a ffyddlon,
  Yn gysson yn ei gwys,
Nid gwag resymau coegion,
  Ei dirion eiriau dwys.

9 Yn nifer grasau'r nefoedd,
  Fe dyfodd yn ei dir
Ryw hyfryd ostyngeiddrwydd
  Yn un o'r planwydd pur;
Blaen-darddodd, do, mewn urddas,
  Doeth addas i'w ei swydd,
Heb redeg at anrhydedd
  Fel troedia rhai yn rhwydd.

10 Nid yspryd Diotrephes,
  Mewn gormes am y bla'n,
A sathru dan ei wadnau
  Yr ŵyn a'r defaid mân;
Ond yspryd mwyn a llonydd
  Mewn cynnydd ynddo ca'w'd,
Blagurodd arno'n goron,
  Ei fod yn ffyddlon frawd.

11 'Doedd undyn fwy am undeb
  Mewn purdeb ac mewn pwyll,
Gochelai ffug-sancteiddrwydd,
  Sydd ynfyd anfad dwyll;
Gwrthodai ddig athrodwr,
  A gynnwr' ddwndwr ddall,
Ei ddyfais ni oddefai,
  Er budd fe roddai ball.

12 Gwr distaw (gallaf dystio,
  Heb wyro lled fy llaw,)
Fyth gynnyg wnai udganu
  Ryw drwstan drystau draw;

Ni chwyddai, ni ddyrchafai,
  Ni chodai uchel lef,
Diniwed fel y g'lommen
  Ar gangen ydoedd ef.

13 Bu ugain, un yn rhagor,
  Heb drysor tŷ ei Dad,
O flwyddau'n ddiymgeledd,
  Yn gorwedd yn ei wa'd,
A daflwyd yno'n aflan
  I ddrycin, gwres, a gwynt,
Heb ystyr i dosturio,
  Aent heibio bawb ar hynt.

14 Nes yn y diwedd dirwyn
  Hen olwyn arfaeth nef,
A'r aden gael ei lledu
  Dros eitha'i noethni ef;
Gwnawd ammod priodaso
  Fyth fythol i barhau,
A golchi'n lân â dwfr
  Oddiwrth yr aflan fai.

15 Rhowd mantell deg am dano,
  Ei guddio ynddi ga'dd
Rhag ergyd cledd cyfiawnder,
  A'i lymder fyth ei ladd;
Y fodrwy ac esgidiau,
  A'r gwleddoedd goreu'n rhyw,
A dechreu gorfoleddu
  Yng nghanol teulu Duw.

16 Fawr uwch na chwech o flwyddau,
  Rhai dyddiau, yn ei dŷ,
Cyn dweud o'r Pen—Cyssegrwch,
  Neillduwch hwn i mi;
Is-fugail fe'i gosodwyd
  Ar ddefaid corlan Crist,

I'w tywys yn eu teithiau
Rhag tramgwyddiadau trist.

17 Ei oedran, wyth ar hugain,
Heb amgen, clywais hyn,
Pan codwyd at y ceidwaid
I furiau Seion fryn;
Mewn gweddi, Ior a gofiant,
Ni thawant nos na dydd,
Nes myned yn ben moliant
Y Salem hon sydd rydd.

18 Bu ddeugain o flynyddoedd
Yn gyhoedd gyda'r gwaith,
Nes gorphen ei ddiwrnod,
A dyfod pen y daith;
Bu ddeg o'r deugain hynny
Yn llwyr yn gweini'n llawn,
Yn ddyfal ac yn ddiwyd,
Nes machlud haul brydnawn.

19 Caed yn ei weinidogaeth
Y golledigaeth gaeth
Drwy erchyll dwyll y diafol
Y natur ddynol aeth,
I lawr dan ddedfryd ddwyfol,
Yn euog farwol fud,
I bydew llygredigaeth,
Heb obaith yn y byd.

20 Ond eilwaith yn dra helaeth,
Yr iachawdwriaeth rad,
Yn gyson y dangosai
Rinweddau maith y gwa'd;
I'r euog, gwisg yn gysgod
Fyth rhag y gafod dân,
A'r ffrydiau gwych a olcha
Y dua'i liw yn lân.

21 Yn frwd annogai'i frodyr,
Mewn geiriau cywir coeth,
I wilio a gofalu
Am adeiladu'n ddoeth;
Pob chwaer i fanwl chwilio,
Taer gloddio am y graig
A ddeil bob llif a thonnau,
Aneirif ddrygau'r ddraig.

22 Yr unfed dydd ar bumtheg
O Ionawr, dyna'r pryd,
Gadawodd yr anialwch,
Pob d'ryswch anial fyd,
Trwy ddyffryn cysgod angeu,
A hwnnw'n foreu ddydd,
O ofael gwae a gofid,
I fywyd perffaith rydd.

23 Pe chwiliwn Ferthyr Cynog,
A sir Frycheiniog faith,
Gan dybied byddai gartref,
Neu ynte ar ei daith;
Neu mewn Cyfarfod Misol,
Oedd yn arferol fod,
Try'r cwbl yn alaru
Wrth fethu cael y nôd.

23 Ei gorph a roed i orphwys
A'i bwys i waelod bedd,
Yr enaid draw a nofiodd
I foroedd maith o hedd,
Lle nad oes drangc nac adfyd,
Na blinfyd yno 'nglŷn,
Ond moli fyth heb ddarfod
Y Duwdod yn y dyn.

25 Gadawodd blant a phriod,
Cydnabod bawb yn ol,

At Grist fe aeth i'w fynwes,
  Ei anwyl gynnes gôl;
Yng nghanol 'stormydd garw,
  Pob trai, a llanw, a lli',
Rhodd siampl o sancteiddrwydd
  Yn arwydd bur i chwi.

26 Ei ffydd, yr hwn dilynwn,
  Canfyddwn ddiwedd da,
Y fuddugoliaeth hynod
  Ar bechod a phob pla;
Mae heddyw yn rhyfeddu
  Y prynu ar y pren,
Gan garu mwy a moli
  Heb dewi fyth. Amen.

---

Gwr ffyddlon, tirion, gwas teg,—ïe Tomas,
  Hyd dymmor ei adeg;
  Ow einioes fau, brau, a breg,
  I'w chynnal ddim yn chwaneg.

Doeth a daw, daeth y diwedd,—i mudo,
  Ymadael â'i annedd;
  O'i yrfa aeth i oerfedd,
  O barth byd i byrth y bedd.

Yr enaid a'i dŷ ymrannodd,—coeliaf,
  Y cwlwm ddattododd;
  O'i ing fe a ddiangodd
  I nef rad—dianaf rodd.

D. R. a W. REES, ARGRAFFYDDION, LLANYMDDYFRI.